# BWRDD PENSIWN RHONDDA CYNON TAF

**Cofnodion** o gyfarfod Bwrdd Pensiwn Rhondda Cynon Taf a gynhaliwyd yn Y Pafiliynau, Cwm Clydach, ddydd Gwener 16 Mehefin 2017 am 9.30am.

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Yr Athro Hugh Coombs | Cynrychiolydd y Cyflogwyr (Prifysgol De Cymru) a Chadeirydd Bwrdd Pensiwn Rhondda Cynon Taf |
| Angela Pring | Cynrychiolydd yr Aelodau (gweithredol/wedi'u gohirio) |
| Rob Whiles | Cynrychiolydd yr Aelodau (Pensiynwyr) |
| David Francis | Cynrychiolydd Cyflogwyr y Bwrdd Pensiwn (Coleg y Cymoedd) |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Ian Traylor | Cyngor Rhondda Cynon Taf – Cymorth |
| Stephanie Davies | Cyngor Rhondda Cynon Taf – Cymorth |
| Julia Nicholls | Cyngor Rhondda Cynon Taf – Cymorth Gweinyddol |

## 1. SYLWADAU'R CADEIRYDD

Estynnodd y Cadeirydd groeso i David Francis, Cynrychiolydd Cyflogwyr y Bwrdd Pensiynau, i'w gyfarfod cyntaf o Fwrdd Pensiwn Rhondda Cynon Taf.

## 2. DATGANIAD O FUDDIANT / GWRTHDARO BUDDIANNAU / CYFRINACHEDD

Doedd dim datganiadau o fuddiannau personol/gwrthdaro ynghylch yr agenda a nodwyd cyfrinachedd y sefyllfa.

## 3. COFNODION

**CYTUNWYD** ar dderbyn y cofnodion o gyfarfod Bwrdd Pensiwn Rhondda Cynon Taf, a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2017, yn rhai cywir yn amodol ar nodi byddai angen cwblhau'r broses cysoni Isafswm Pensiwn Gwarantedig (‘GMP’) erbyn 18 Rhagfyr 2018 yn lle 2017, fel y nodwyd yn y cofnodion.

**Materion yn deillio**

- Cofnod 59 – Sefyllfa Llif Arian – Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai'r mater yma'n cael ei godi yn y cyfarfod priodol nesaf ar ôl cwblhau'r gwaith dadansoddi;

- Cofnod 59 – Mandadau ar gyfer terfynau daliannau unigol – dosbarthwyd yr wybodaeth er budd y Bwrdd;

- Cofnod 60 – Cyflawniad Invesco – Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd y byddai'r mater yma'n cael ei drafod yn hwyrach yn yr agenda;

- Cofnod 61 – Rhwymedigaethau Awdurdod Datblygu Cymru (‘WDA’) – Cadarnhawyd bod y mater wedi dod i ben a bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn y cyfraddau newydd yn dilyn cwblhau'r gwaith Prisio;

- Cofnod 63 – Data Aelodau – Cadarnhawyd bod yr amser mae'n ei gymryd i amlygu'r aelodau o'r gronfa sydd wedi marw, i osgoi gordalu, wedi gwella; serch hynny, doedd dim diweddariad/tuedd pellach i'w adrodd ar sail yr arolwg a'r pecyn cymorth hyd yn hyn;

- Cofnod 64 – Proses gysoni Isafswm Pensiwn Gwarantedig (‘GMP’) – Cadarnhawyd y byddai Crynodeb o Gynnydd ynglŷn â phroses gysoni'r Isafswm Pensiwn Gwarantedig yn cael ei darparu yn y cyfarfod nesaf.

## 4. PANEL YMGYNGHORI – BUDDSODDI A GWEINYDDU

Rhoddwyd diweddariad i'r Bwrdd am y cofnodion o gyfarfod y Panel Ymgynghori – Buddsoddi a Gweinyddu – a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2017.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi'r cofnodion o gyfarfod y Panel Ymgynghori – Buddsoddi a Gweinyddu – a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2017;

2. Bydd dadansoddiad pellach o'r ganran ym mhob pennawd ym mhob tabl, sy'n amlygu'r ffigurau cyflawniad chwarterol ar gyfer pob rheolwr cronfa, yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf o'r Bwrdd Pensiwn;

3. Bydd cyfanswm yr elw a ddaw o bortffolio Newton ar gyfer y chwarter nesaf tan fis Mawrth 2017 yn cael ei ddosbarthu ymhlith yr aelodau o'r Bwrdd ar ôl y cyfarfod;

4. Bydd Cylch Gorchwyl y Bwrdd Pensiwn yn cael ei adolygu i sicrhau bod deiliadaeth yr aelodau yn darparu parhad ar gyfer y Bwrdd; a

5. Bydd y Bwrdd yn cael diweddariad am faterion trosglwyddo/diweddu Cyflogwyr yn y cyfarfod priodol nesaf o'r Bwrdd.

## 5. MONITRO RISG

Cafodd asesiad o'r risgiau sy'n gysylltiedig â Chronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf, a'r mesurau rheoli sydd mewn grym, eu cyflwyno i'r Bwrdd.

Gofynnodd y Bwrdd am ystyried cynnwys yr ymosodiad seiber diweddar yn risgiau'r Gronfa Bensiwn. Cadarnhaodd Pennaeth Pensiynau, Cyflogres a Thaliadau – ar ôl cael eglurhad gan Adran Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu y Cyngor – fod y risg benodol yma yn rhan o gofrestr risgiau Cyngor Rhondda Cynon Taf a'r Bwrdd Rheoli Gwybodaeth. Mae diogelwch data a system y Gronfa Bensiwn yn cael ei gynnal yn rhan o seilwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu y Cyngor ei hun, ac yn destun dulliau rheoli perthnasol.

O ran CBRE yn torri terfyn uchaf y mandad ar gyfer dal cronfa sengl o 10% – lle roedd yn dal 10.3% o gronfa eiddo prydles hir – rhoddwyd diweddariad gan Bennaeth Cyllid, Addysg ac Adroddiadau Ariannol yn cadarnhau bod y terfyn uchaf am ddaliad unigol wedi cynyddu o 10% i 15%.

Yn dilyn cais am eglurhad ynghylch rhai o'r mesurau rheoli sydd mewn grym, **CYTUNODD** y Bwrdd i nodi'r wybodaeth a gafodd ei rhoi.

## 6. LLYWODRAETHU

Cadarnhawyd bod y materion canlynol eisoes wedi eu dosbarthu mewn perthynas â'r adolygiad blynyddol; bydd unrhyw sylwadau pellach gan yr Aelodau o'r Bwrdd yn cael eu hanfon at Bennaeth Pensiynau, Cyflogres a Thaliadau: -

- Strategaeth Weinyddu'r Gronfa Bensiwn 2017
- Datganiad Polisi Llywodraethu'r Gronfa Bensiwn 2017
- Polisi Cyfathrebu'r Gronfa Bensiwn 2017
- Datganiad Cydymffurfio'r Gronfa Bensiwn 2017
- Datganiad Strategaeth Gyllido 2017 (cafodd ei ddarparu mewn cyfarfod blaenorol o'r Bwrdd)

Datganiad Strategaeth Fuddsoddi

Meddai Pennaeth Cyllid, Addysg ac Adroddiadau Ariannol fod y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi eisoes wedi ei ddosbarthu ymhlith y Panel Ymgynghori a Buddsoddi ar 10 Mawrth 2017 ar gyfer ymgynghoriad ac adolygiad allanol priodol, ac yna ymhlith Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ar 25 Ebrill 2017. Eglurwyd ymhellach fod y datganiad wedi ei gyhoeddi ar wefan Rhondda Cynon Taf ar 31 Mawrth.

Gofynnwyd i'r Aelodau o'r Bwrdd ffurfio barn ar gynnwys y Datganiad a **CHYTUNWYD** i nodi'r cynnwys yn amodol ar newid/cynnwys yr hyn a ganlyn (yn y fersiwn Saesneg):-

1. Rhoi'r gair ‘who’ yn y paragraff olaf ar dudalen 23;
2. Diweddaru'r dyddiad ‘March 2016’ (tudalen 26, paragraff cyntaf);
3. Dyblygu'r gair ‘annually’ (tudalen 31);
4. Newid y frawddeg ar dudalen 31/32 i:-
   ‘Although the pursuit of a financial return is our predominant concern, we may also take non financial considerations into account provided this would not involve significant risk of financial detriment to the scheme’;
5. Dosbarthu copi o'r templed pleidleisio ymhlith yr aelodau o Fwrdd Pensiwn Rhondda Cynon Taf.

Mynegodd yr Aelodau o'r Bwrdd bwysigrwydd adolygu Cynllun Busnes Cydgyfrannu Buddsoddiadau Cymru Gyfan yn rheolaidd.

Cytunwyd i ddarparu rhagor o wybodaeth ar gyfer y Bwrdd am adran 212 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 – y cyfeirir ato yn adran 4.

**7. PRISIAD**

Cyflwynwyd Prisiad yr Actiwari – ar 31 Mawrth 2017 – i'r Aelodau o Fwrdd Pensiwn Rhondda Cynon Taf, a thrafodwyd penawdau allweddol yr adroddiad. Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** nodi'r cynnwys.

**8. CYDGYFRANNU CYMRU GYFAN**

Rhoddwyd diweddariad ar lafar i'r Aelodau o Fwrdd Pensiwn Rhondda Cynon Taf am y cynnydd a wneir tuag at ddatblygu trefniadau Cydgyfrannu Cymru Gyfan o ran buddsoddiadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (‘LGPS’) (ynghyd â thaflen ychwanegol a gafodd ei dosbarthu yn y cyfarfod).

Rhoddodd Pennaeth Pensiynau, Cyflogres a Thaliadau fanylion am y cynnydd a wnaed hyd yn hyn i gynnwys trefniadau llywodraethu; caffael gweithredwr ac amserlenni sy'n gysylltiedig â chynllun Cydgyfrannu Cymru Gyfan Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**CYTUNODD** yr Aelodau ar bwysigrwydd polisi cysylltiedig Cylch Gorchwyl sy'n egluro perthynas pob parti yn rhan o Gydgyfrannu Cymru Gyfan.

**9. FFRAMWAITH GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH**

Atgoffodd y Cadeirydd yr holl Aelodau o Fwrdd Pensiwn Rhondda Cynon Taf o bwysigrwydd cadw taflenni o'r sesiynau hyfforddi fel bod modd eu dosbarthu er gwybodaeth.

**CYTUNWYD** i nodi'r Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau.

**10. UNRHYW FATERION ERAILL**

Cadarnhaodd Pennaeth Pensiynau, Cyflogres a Thaliadau fod y Cynllun Buddion Blynyddol ar y gweill, a'i fod ar y trywydd iawn i'w gyhoeddi erbyn 31 Awst 2017.

Gofynnwyd am ddosbarthu'r holl gofnodion o Fwrdd Pensiwn Rhondda Cynon Taf yn y dyfodol mewn modd amserol i gynnwys rhestr o Bwyntiau Gweithredu.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â'r gwaith o ran eglurder ffioedd, sy'n cael ei wneud gan Fwrdd Ymgynghori'r Cynllun, cadarnhaodd Pennaeth Pensiynau, Cyflogres a Thaliadau fod cynnydd yn cael ei wneud a bod rhai Rheolwyr Cronfa yn cymryd rhan weithredol yn y datgeliad gwirfoddol yma.

Gofynnwyd am ddosbarthu taflen ffeithiau am Reol 85 ar ôl y cyfarfod.

**CYTUNWYD** y byddai'r cyfarfod nesaf o Fwrdd Pensiwn Rhondda Cynon Taf yn cael ei gynnal ddydd Mawrth 12 Medi 2017 ym Mloc F, Cwm Clydach.

**YR ATHRO H. COOMBS**
**CADEIRYDD**

Daeth y cyfarfod i ben am 1.30pm.

# RHONDDA CYNON TAF PENSION BOARD

**Minutes** of the meeting of Rhondda Cynon Taf Pension Board held at The Pavilions, Clydach Vale on Friday, 16th June 2017at 9.30 a.m.

**In Attendance:**

| | |
|---|---|
| Professor Hugh Coombs | Employer Representative (University of South Wales) and Chairman of the RCT Pension Board |
| Angela Pring | Member Representative (Actives/Deferred) |
| Rob Whiles | Member Representative (Pensioners) |
| David Francis | Pension Board Employer Representative (Coleg Y Cymoed) |

**Officers:**

| | |
|---|---|
| Ian Traylor | RCTCBC Support |
| Stephanie Davies | RCTCBC Support |
| Julia Nicholls | RCTCBC Admin Support |

## 1 CHAIRMAN'S REMARKS

The Chairman extended a welcome to David Francis, the Pension Board Employer Representative, to his first meeting of the RCT Pension Board.

## 2 DECLARATION OF INTEREST/CONFLICTS/CONFIDENTIALITY

There were no declarations of personal interests/conflicts in matters pertaining to the agenda and the confidential nature of proceedings was noted.

## 3 MINUTES

**AGREED** to approve as an accurate record, the minutes of the meeting of the RCT Pension Board held on 9th February 2017 subject to it being noted that the date for competing the GMP Reconciliation exercise would need to be completed by 18th December 2018 not 2017 as stated in the Minutes.

**Matters Arising**

- Minute 59 **-** Cashflow Position– Members were advised that this would be brought to the next appropriate meeting following completion of the analysis;

- Minute 59 – Mandates for Individual Holding Limits – the information was circulated for the benefit of the Board;

- Minute 60 – Invesco's Performance- The Board was advised that this item would be considered later in the agenda;

- Minute 61 – WDA Closed Liabilities - It was confirmed that the issue has been concluded and Welsh Government have accepted their new rates following the completion of the Valuation;
- Minute 63 – Member Data – It was confirmed that the time taken to identify deceased members of the fund to avoid overpayments has improved however, there were no further updates/trends to report from the completed survey and toolkit as yet; and,

- Minute 64 – GMP Reconciliation – It was confirmed that a GMP Reconciliation Progress Summary would be provided at the next meeting.

## 4 INVESTMENT & ADMINISTRATION ADVISORY PANEL

The Board was provided with an update in respect of the minutes of the meeting of the RCT Pension Fund Investment and Administration Advisory Panel held on 10th March 2017.

Following consideration of the report it was **RESOLVED**:

1. To note the minutes of the meeting of the RCT Pension Fund Investment and Administration Advisory Panel held on 10th March 2017;

2. That a further breakdown of the percentage within each heading within the table highlighting the quarter performance figures for all fund managers is provided at the next meeting of the Pension Board;

3. That the total return delivered by Newton's portfolio for the next quarter to March 2017 is circulated to the Board members following the meeting;

4. That the RCT Pension Board Terms of Reference is reviewed to ensure the members' tenure provides continuity to the Board; and,

5. That the Board receives an update on Employer transfers/cessations at the next appropriate Board meeting.

## 5 RISK MONITORING

The Board was presented with an assessment of the risks associated with the RCT Pension Fund and the control measures in place.

The Board requested that consideration is given to the recent cyber attack being included in the Pension Fund risks. The Head of Pensions, Payroll and Payments confirmed that following clarification from the Council's ICT department the specific risk is covered by Rhondda Cynon Taf Council's risk register and the Information Management Board. The Pension Fund system and data security is maintained within the Council's own ICT infrastructure and subject to the relevant controls.

In respect of the CBRE breaching their mandate maximum limit for holding a single fund of 10% whereby they held 10.3% of a long lease property fund, an update was provided by the Head of Finance, Education and Financial Reporting who confirmed that the maximum limit for a single holding has been increased from 10% to 15%.

Following a request for clarification in respect of some of the control measures in place, the Board **AGREED** to note the information provided.

**6 GOVERNANCE**

It was confirmed that the following items had previously been circulated in relation to the annual review, any further comments from Board Members to be forwarded to the Head of Pensions, Payroll & Payments:-

- Pension Fund Administration Strategy 2017;
- Pension Fund Governance Policy Statement 2017;
- Pension Fund Communication Policy 2017;
- RCT Pension Fund Compliance Statement 2017; and
- The Funding Strategy Statement 2017 (provided to a previous meeting of the Board)

Investment Strategy Statement

The Head of Finance, Education & Financial Reporting stated that the Investment Strategy Statement had previously been circulated to the Investment & Advisory Panel on the 10th March 2017 for appropriate external review and consultation, then to the Pension Fund Committee on the 25th April 2017. It was further clarified that the statement has been published to the RCT website on 31st March.

Members of the Board were asked to form a view on the content of the Statement and it was **AGREED** to note the content subject to the following amendments/inclusions:-

1. That the word ‘who’ is to be inserted into the last paragraph on page 23;
2. That the date ‘March 2016’ (page 26, first paragraph) is to be updated;
3. That the word ‘annually’ is duplicated (page 31);
4. That the sentence on page 31/32 should be altered to read:-
   ‘Although the pursuit of a financial return is our predominant concern, we may also take non financial considerations into account provided this would not involve significant risk of financial detriment to the scheme;’ and,
5. That a copy of the voting template is circulated to members of the RCT Pension Board.

Members of the Board stated the importance of the All Wales investment pool Business Plan being subject to regular review.

It was agreed that further information to be supplied to the Board regarding S212 of the Local Government and Public Involvement in Health Act 2007 referred to at section 4.

**7 VALUATION**

Members of the RCT Pension Board were presented with the Actuarial Valuation as at 31 March 2017 and considered the key headings within the report. Following consideration of the report it was **AGREED** to note the content.

**8 ALL WALES POOLING**

Members of the RCT Pension Board were provided with a verbal update in respect of progress being made towards developing LGPS investment pooling arrangements on an all Wales basis (with the aid of an additional handout circulated at the meeting).

The Head of Pensions, Payroll and Payments provided details of progress made to date to include governance arrangements; procurement of the operator and timelines associated with the LGPS all Wales Investment Pool.

Members **AGREED** the importance of the Terms of Reference associated policy which serves to clarify the relationship of all parties within the All Wales Investment Pool.

**9 KNOWLEDGE AND UNDERSTANDING FRAMEWORK**

The Chairman reminded all Members of the RCT Pension Board of the importance of retaining handouts from their training sessions so they can be circulated for information.

It was **AGREED** to note the Knowledge and Skills Framework.

**10 OTHER BUSINESS**

The Head of Pensions, Payroll and Payments confirmed that the Annual Benefits Scheme is underway and on target for issue by the 31st August 2017.

It was requested that all future minutes of the RCT Pension Board are circulated in a timely manner to incorporate a list of Action Points.

In response to a query around the ‘fee transparency’ work being conducted by the Scheme Advisory Board, the Head of Pensions, Payroll and Payments confirmed that progress is being made with some Fund Managers actively participating in this voluntary disclosure.

It was requested that a Factsheet on the 85 Rule is circulated following the meeting.

It was **AGREED** that the next meeting of the RCT Pension Board would be held on Tuesday, 12th September 2017 in Block F, Clydach Vale.

**PROFESSOR H. COOMBS**
**CHAIRMAN**

The meeting closed at 1.30 p.m.